

Cyngor Cymuned Llandderfel.

Cyfarfod Blynyddol.

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Mawrth 2il 2021 drwy gyfrwng Zoom. Yn bresennol oedd Rita Jones (cadeiryddes), Alwyn Jones, Iolo V. Evans, Eifion Davies, Eilir Rowlands, Bethan Thomas, Gwynedd Jones, Dewi Pritchard, Meilir Jones a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan, Gwenda Morris a'r Cyng. Elwyn Edwards.

Roedd amgylchiadau'r pandemig Covid 19 wedi rhwystro, ar gyngor Un Llais Cymru, rhag cynnal y cyfarfod ym mis Mai yn ôl yr arfer. Nodwyd nad oedd y Cyngor wedi bod yn ymwybodol tan fis Chwefror o'r cyfarwyddwyd i gynnal y cyfarfod blynyddol cyn diwedd Rhagfyr 2020 felly roeddynt wedi trefnu i'w gynnal cyn gynt ac roedd hyn wedi dod i'r amlwg.

Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.

i) Ethol Cadeirydd ac Is-Gadeirydd.

Ail etholwyd y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd am y flwyddyn 2020-21.

ii) Cynrychiolwyr ar bwyllgorau.

Ail-etholwyd y cynrychiolwyr ar y pwyllgorau canlynol:-

Pwyllgor Un Llais Cymru: Dewis cynrychiolydd pan fydd y Cyngor yn derbyn manylion y cyfarfodydd.

Partneriaeth Penllyn/Cwmni Pum Plwy Penllyn: Eifion Davies a Gwynedd Jones.

Pwyllgor Cantref: Eilir Rowlands.

Gorff Llywodraethol Ffederasiwn Cysgod y Foel: Eifion Davies.

Cyfarfodydd Lleol Yr Heddlu: Alwyn Jones.

iii) Archwiliad Mewnol y Cyngor.

Adolygwyd trefniadau archwiliad mewnol y Cyngor a chafwyd yn gywir. Cytunwyd yn unfrydol i benodi Uned Archwilio Mewnol Cyngor Gwynedd i archwilio'r cyfrifon ar gyfer 2020-21 Gofynnwyd i'r clerc anfon y llythyr ymrwymiad arferol iddynt.

iv) Adolygu Rhestr o ffioedd y mynwentydd.

Cytunwyd i gadw'r ffioedd presennol.

v) Gydabyddiaeth Ariannol i'r Cynghorwyr 2020/21.

Cadarnhaodd y clerc eu bod eisoes wedi derbyn llythyrau gan y cynghorwyr yn hysbysu'r Cyngor o'i dymuniad i beidio derbyn y taliadau statudol a oedd ar gael iddynt.

vi) Adolygu Asedau.

Adolygwyd y rhestr asedau a adroddodd y clerc eu bod wedi gwneud archwiliadau rheolaidd o'r mynwentydd ac asedau eraill y Cyngor yn ystod y flwyddyn ac nid oedd unrhyw fater wedi codi.

vii) Adolygu Polisiâu a Rheoliadau'r Cyngor.

Adolygwyd a chytunwyd bod y Rheoliadau Sefydlog, Rheoliadau Ariannol, Rheoliadau Mewnol, Polisi Diogelu Data ac Asesiad Risg presennol yn gywir.